# Ffurflen Ymateb Rheolwyr

**Teitl yr adroddiad:** Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd

**Dyddiad cwblhau:** Rhagfyr 2024

**Cyfeirnod dogfen:** 4404A2024

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Gwelsom gyfyngiadau yn ymagwedd strategol y Cyngor i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor weithredu strategaeth ariannol hirdymor sy'n cefnogi ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol tymor canolig ac yn llywio ei drawsnewid a'i flaenoriaethu gwasanaethau. | Mae'r Cyngor yn cydnabod fod camau pellach i'w cymryd er mwyn cryfhau ei ymagweddiad strategol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor:<br><br>Yn sgil comisiynu gwaith pellach gan CIPFA i ystyried cynaladwyedd ariannol hirdymor yn ogystal â chydymffurfiaeth y Cyngor i'r Côd Rheolaeth Ariannol, disgwylir adroddiad erbyn Chwefror 2025 ac y byddwn wedi llunio rhaglen waith ar sail yr argymhellion erbyn canol Mawrth | 21 Mawrth 2025 | Pennaeth Cyllid |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Byddwn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cynnal mwy o adolygiad tebyg i “Llechen Lân” er mwyn adnabod tueddiadau hirdymor yn y galw am wasanaethau, ac wedi adnabod meysydd priodol. | 30 Ebrill 2025 | Prif Weithredwr / Pennaeth Cyllid |
| | | Bydd yr Adran Gyllid yn adnabod meysydd ble gellir gwella effeithlonrwydd. | 30 Mehefin 2025 | Pennaeth Cyllid |
| | | Byddwn yn adolygu’r defnydd strategol o gronfeydd y Cyngor er mwyn gwneud y defnydd gorau ohonynt | 30 Mehefin 2025 | Prif Weithredwr / Pennaeth Cyllid |